# Ymgysylltiad Safle Strategol ym Mwrdeistref Sirol Conwy gan Gymorth Cynllunio Cymru: Adroddiad Llanrwst

## 1. Cefndir

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Conwy ym mis Medi 2023 i ddarparu digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned anstatudol ar y 5 Safle Strategol a awgrymwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy. Mae'r adroddiad hwn hyn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau a wnaed o ran Safle Strategol Llanrwst. Mae'n crynhoi'r adborth a gafwyd gan gymunedau lleol a gymerodd ran yn y digwyddiadau ar gyfer y safle a gyflwynwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru. Bydd yr adroddiad hwn a'r holl sylwadau ychwanegol a gafwyd ar e-bost yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy, sy'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gyfeirio cam Archwilio gan y Cyhoedd y cynllun.

Fel sefydliad sy'n cefnogi ymgysylltu â'r gymuned yn y broses gynllunio, mae Cymorth Cynllunio Cymru ond yn gwneud comisiynau sy'n:

1. Cyd-fynd â'i genhadaeth ar gyfer system gynllunio decach, mwy tryloyw ac ymatebol.
2. Mae'n credu y gall ychwanegu gwerth i ymgynghoriad cynllunio / proses ymgysylltu ac y bydd yn caniatáu i fwy o bobl gael dweud eu dweud yn fwy ystyrlon yn y broses honno.

Yn ogystal â bodloni'r blaenoriaethau hyn, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn croesawu'r gweithgaredd ymgysylltu hwn yn arbennig. Tra bod gwersi a ddysgwyd yn gallu cael eu defnyddio gyda gweithgareddau'r dyfodol, mae'n mynd y tu hwnt i beth sydd angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ei wneud mewn rheoliadau cynllunio - mae'r ymarfer cyfan yn cael ei gyflwyno yn ychwanegol i ymgynghoriadau 'statudol' sydd wedi ac a fydd yn cael eu cynnal ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

## 2. Cwmpas a Methodoleg

Bwriad y gwaith ymgysylltu hwn oedd edrych ar safbwyntiau cynrychiolwyr cymunedol ynglŷn â sut y gellir datblygu'r safleoedd yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio polisïau safle penodol / Cynlluniau Lleoedd / Briffiau Safle /

Uwchgynlluniau (neu hyd yn oed ceisiadau cynllunio) a bydd yn llywio'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy i'w Archwilio yn 2024. Roedd cwmpas y prosiect gwreiddiol yn cynnwys darparu un digwyddiad wyneb yn wyneb ac un digwyddiad ar-lein ar gyfer bob safle (cyfanswm o 10 digwyddiad) rhwng Hydref a Rhagfyr 2023. Roedd diffyg lleoliadau ar gael yn golygu nad oedd yn bosib cynnal yr holl ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn a chaniatáu amser ar gyfer hysbysebu, ac o ganlyniad cytunwyd y byddai rhai digwyddiadau'n cael eu symud i Ionawr 2024 a byddai digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal yn dibynnu ar alw.

Mae'r prosiect wedi denu adborth sylweddol ar gyhoeddusrwydd y digwyddiadau gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud bob ymdrech i addasu natur y gweithgareddau yn briodol ac yn anffodus, nid oedd yn bosib defnyddio rhestrau cyswllt Cynllun Datblygu Lleol oherwydd rhesymau Diogelu Data. O ganlyniad i'r uchod, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud gwaith ychwanegol y tu hwnt i gwmpas y cynnig gwreiddiol, gan gynnwys paratoi a phostio llythyrau at drigolion sy'n agos at y safle (gweler adran 3, isod).

Dilynodd y digwyddiad ar-lein a'r un wyneb yn wyneb yr un fformat yn fras. Rhoddodd Cymorth Cynllunio Cymru gyflwyniad ac yna cynnal trafodaeth cynulleidfa ynghylch set o destunau eang oedd yn gorgyffwrdd. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am:

1. Swyddogaeth Cymorth Cynllunio Cymru a natur y digwyddiadau.
2. Trosolwg cryno o broses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, dyraniadau tir, safleoedd ymgeisiol a sut mae CDLl yn dylanwadu ar benderfyniadau ceisiadau cynllunio.
3. Crynodeb o'r gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy hyd yma (gan gynnwys ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir yn 2019) a'r ymgynghoriad Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd a ddisgwylir yn 2024.
4. Diffiniad o Safleoedd Strategol, a sut maent yn cael eu hasesu a'u dethol.
5. Targedau cyfredol yr awdurdod (4,300 o gartrefi gan gynnwys 700/20% wrth gefn a 1,500 o swyddi ar dir cyflogaeth 16.4ha).
6. Adolygiad o'r dyraniad safle a fwriedir yn Strategaeth a Ffafrir 2019 a chymhariaeth â'r cynnig cyfredol.
7. Mae manylion y cynnig cyfredol fel a ganlyn:
    a. Gostyngiad yn arwynebedd cyffredinol y safle ers 2019.

b. Dyrannu tai mewn ystod o 80-120 o gartrefi, yn cynnwys tai fforddiadwy.
c. Bwriad ar gyfer darpariaeth man agored i'w ddiffinio.

Ymdriniodd Cymorth Cynllunio Cymru â chwestiynau ar weithdrefnau ble bynnag fo'n bosib a gofynnwyd cwestiynau dilynol i ystyried materion ymhellach pan oedd yn briodol, pwysleisiwyd hefyd y byddai unrhyw adborth (gan gynnwys cwestiynau) a gasglwyd yn cael ei gyflwyno'n ôl i CBS Conwy air am air.

Ar gyfer y digwyddiad ar-lein, cafodd y sesiwn gyfan ei recordio a chafodd adborth gan gyfranogwyr ei drawsgrifio. Ar gyfer y sesiwn wyneb yn wyneb, cafodd y cyfranogwyr gopïau papur o'r map safle a thaflenni hybu trafodaeth a chawsant wahoddiad i gofnodi eu hadborth un ai'n uniongyrchol ar y taflenni neu ar nodiadau.

Hwyluswyd pedwar testun trafod eang fel a ganlyn:

1. **Argraffiadau Cyntaf**, ble gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau cychwynnol ar unrhyw destun.
2. **Gwybodaeth Leol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ddisgrifio cymeriad y safle presennol ar hyn sydd o'i amgylch a rhannu eu safbwyntiau ar y cais a'r effeithiau yng nghyd-destun y wybodaeth hon.
3. **Dylunio Safle**, ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried goblygiadau dylunio mewn perthynas â mynediad / priffyrdd, symudiad ar draws y safle, Teithio Llesol, ffurf a natur man agored, materion amgylcheddol, diogelwch ac unrhyw welliannau posib a fyddai'n gwneud y dyraniad yn well.
4. **Blaenoriaethau cymunedol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried anghenion y gymuned, bylchau mewn darpariaeth ac unrhyw welliannau neu fuddion y gallai'r safle eu creu.

Cyflwynir crynodeb o'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer yn rhan 4, isod. Mae atodiad A yn cyflwyno'r adborth llawn fel y cyflwynwyd yn y ddau ddigwyddiad. Pwysleisiwyd hefyd y gellir darparu sylwadau pellach yn ysgrifenedig erbyn 19 Ionawr 2024, mae'r holl ohebiaeth a gafwyd wedi ei roi i CBS Conwy gyda'r adroddiad hwn. Mae crynodeb o'r sylwadau ychwanegol a gafwyd yn Atodiad B (SYLWER: ni chyhoeddwyd y sylwadau llawn yn yr adroddiad hwn am resymau Diogelu Data).

## 3. Hysbysebu, archebu ac adborth ar gyhoeddusrwydd

Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn CBS Conwy, bu i Gymorth Cynllunio Cymru baratoi deunydd hysbysebu aml-sianel oedd yn cynnwys:

- Cyflwynwyd hysbysiadau e-bost i gynrychiolwyr lleol yn unol ag ymchwil ar draws 9 categori (Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorau cyfagos, gwasanaethau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau lleol, cynrychiolwyr busnes lleol ac 'eraill' megis cyfryngau lleol a grwpiau anodd eu cyrraedd). Mewn achosion o'r fath, roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn dibynnu ar wybodaeth oedd ar gael yn gyhoeddus neu a ellir dod o hyd iddi trwy chwilio ar y rhyngrwyd.
- Cyhoeddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CBSC.
- Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg leol trwy dîm y wasg CBSC.
- Rhannwyd manylion ar wefan CBSC.
- Dosbarthwyd posteri i leoliadau priodol, e.e. neuaddau Cyngor Tref, eglwysi a siopau yn agos at bob safle.
- Anfonwyd llythyrau i eiddo cyfagos neu ger y safleoedd dan sylw.

Roedd pob hysbysiad e-bost yn gwahodd cyfranogwyr i rannu'r gwahoddiadau gyda'u rhwydweithiau lleol. Mewn rhai achosion, denodd hyn sylw sylweddol yn y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

Roedd bob hysbysiad yn cynnwys dolen at ffurflen archebu digwyddiad ar lwyfan Eventbrite a ddefnyddiwyd er mwyn i Gymorth Cynllunio Cymru gynllunio o amgylch nifer y digwyddiadau.

Ymchwiliwyd a chysylltwyd â 74 e-bost [1]ac anfonwyd 47 llythyr at yr eiddo agosaf at y safle. Rhoddir manylion y nifer oedd wedi archebu a faint oedd wedi cymryd rhan yn safle Llanrwst isod:

| **Digwyddiad** | **Archebion** | **Yn bresennol** |
|---|---|---|
| Llanrwst – Ar-lein, 9 Tachwedd 2023 | 2 | 3 |
| Llanrwst – Glasdir, 16 Tachwedd 2023 | 20 | 30 |
| | **Cyfanswm:** | **33** |

<u>Adborth ar gyhoeddusrwydd</u>

Gwnaed addasiadau wrth roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau ble bynnag fo'n bosib wrth i'r gweithgareddau ddatblygu ac yn unol â'r adborth a gafwyd gan

[1] 1 Yn dangos nifer y cyfeiriadau e-bost unigryw a ymchwiliwyd ar gyfer grwpiau lleol a oedd ar gael yn gyhoeddus trwy Google Search. Mae'n bosib fod Cymorth Cynllunio Cymru a CBS Conwy wedi cysylltu â chyfeiriadau'n annibynnol.

aelodau lleol a'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu trwy'r post, nad oedd yn wreiddiol yn rhan o gwmpas y prosiect.

Yn achos safle Llanrwst, anfonwyd llythyrau i'r 47 eiddo agosaf at y safle yn defnyddio cyfeiriadau a gafwyd drwy gofnodion cyfeiriadau'r Post Brenhinol, gan flaenoriaethu eiddo sy'n ffinio/wynebu Ffordd Llanddoged, Ffordd yr Orsaf, Pen y Bryn, Station Terrace a Phlas Isaf.

Fodd bynnag, yn y ddau ddigwyddiad, dywedodd rhai o'r preswylwyr nad oeddent wedi cael y llythyrau. Ystyriwyd hyn wrth drefnu digwyddiadau dilynol, cafodd mwy o lythyrau hysbysebu eu hanfon a defnyddiwyd mapiau ar-lein mwy manwl CBS Conwy fel ffynhonnell y cyfeiriadau.

Dylid nodi, yn wahanol i arolwg cyhoeddus, ble gwahoddir y boblogaeth ehangaf bosib i ddenu ystod o safbwyntiau, roedd y digwyddiadau hyn wedi eu dylunio i ymchwilio a thrafod barn cynrychiolwyr cymunedol sy'n lleol i'r safleoedd. Er hynny, y prif bryderon a godwyd oedd:

- Nid oedd y digwyddiadau wedi cael eu hysbysebu'n ddigon eang ac ni chysylltwyd â digon o bobl mewn pryd, ac yn benodol, ni chysylltwyd â thenant y fferm ar y safle'n uniongyrchol. Cyfyngwyd ar hysbysebu yn rhannol oherwydd yr amserlenni a sefydlwyd i gwblhau'r prosiect ac yn rhannol gan y cysylltiadau cyfyngedig a ellir eu rhoi i Gymorth Cynllunio Cymru. Ymdriniodd CBS Conwy yn uniongyrchol â phryderon y tenant. Hysbysebwyd bob digwyddiad i aelodau etholedig lleol, Cyngor Tref Llanrwst, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Conwy, trwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy hysbysebu lleol a llythyrau.
- Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd am y digwyddiadau yn ddigonol a chafwyd sawl cais am fwy o wybodaeth gan CBS Conwy a Chymorth Cynllunio Cymru. Er y gwnaed bob ymdrech i fod yn glir ynglŷn â natur y digwyddiadau yn yr hysbysebu cychwynnol, codwyd nifer o bryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am y cynigion ar y safleoedd eu hunain. Er y pwysleisiwyd ar bob cyfle bod gwybodaeth gyfyngedig ar gael ar y cam hwn o'r broses CDLl Newydd ac mai nod yr ymarfer yw cefnogi'r ymgynghoriad statudol dilynol ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, bu i'r pryderon hyn barhau. Cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru ddogfen Cwestiynau Cyffredin 10 tudalen ynglŷn â'r ymarfer a dosbarthu sleidiau digwyddiad ar ôl y digwyddiad cyntaf ar bob safle o ganlyniad.

Yn seiliedig ar yr uchod, byddai Cymorth Cynllunio Cymru yn gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella cyhoeddusrwydd yn y dyfodol:

- Sefydlu a chyhoeddi cwmpas a chyfyngiadau gweithgareddau o'r dechrau, gosod hyd yn oed yn fwy o bwyslais ar wahodd cynrychiolwyr cymunedol i helpu i 'ledaenu'r gair'.
- Caniatáu isafswm o 8 wythnos o amser arwain ar gyfer hysbysebu bob digwyddiad.
- Sicrhau y sefydlir tudalen we gyda'r holl wybodaeth gefndir, dolenni at ymarferion blaenorol a manylion ynghylch sut i archebu lle mewn digwyddiadau cyn dechrau hysbysebu.
- Ystyried lleoliadau mwy / mwy hyblyg, gan ystyried agosrwydd at y safleoedd dan sylw.
- Sicrhau bod y gofrestr CDLl ar gael / y gellir cael cyhoeddusrwydd trwy'r gofrestr.

## 4. Crynodeb o'r adborth ar Safle Llanrwst

Daeth 33 o gyfranogwyr i'r digwyddiadau ac anfonodd 3 unigolyn arall sylwadau ar e-bost. Cafodd pob digwyddiad fwy na 223 o sylwadau unigol ar ystod eang o faterion yn ymwneud â gwybodaeth leol, dyluniad safle a blaenoriaethau cymunedol.

Argraff Cymorth Cynllunio Cymru oedd y byddai'r mwyafrif (ond nid o reidrwydd pob un) o'r cyfranogwyr a fynychodd yn debygol o wrthwynebu'r safle pe bai'r ymarfer wedi bod yn ymgynghoriad ffurfiol. Mynegodd cyfranogwyr a oedd yn cefnogi adeiladu tai newydd 'mewn egwyddor' bryderon hefyd am yr effeithiau cysylltiedig posibl.

Er bod y sesiynau wedi eu rhannu'n bedwar pwnc trafod eang, bu i bob pwnc orgyffwrdd â'r nesaf, ac er rhwyddineb, mae'r crynodeb canlynol yn cymryd ystyriaeth o adborth o bob digwyddiad a phynciau trafod ac wedi ei rannu yn i). Materion sy'n peri pryder a ii). Camau lliniaru a gwelliannau i'r safle.

### <u>i). Materion sy'n peri pryder i'r gymuned</u>

Mae'r pwyntiau canlynol wedi eu graddio yn ôl pa mor aml y'u nodwyd gan unigolion gwahanol ar draws bob digwyddiad a sylwadau ychwanegol a gafwyd ar e-bost. **<u>SYLWER:</u>** Nid yw hon yn rhestr lawn o'r holl faterion a godwyd - gweler atodiadau A a B am nodiadau'r holl adborth a gafwyd.

Roedd y meysydd o bryder mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

1. **Mynediad, Diogelwch ar y Priffyrdd a Chludiant Cyhoeddus.** Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd oedd nad oedd y mynediad i'r safle ac oddi yno ar droed o ganol tref Llanrwst yn ddigonol. Dywedodd cyfranogwyr fod y palmentydd, pan oedd rhai o gwbl, yn gul ar hyd prif ffordd brysur ac na fyddai digon o le i basio arnynt ac y byddent yn achosi perygl i gerddwyr, yn enwedig ar y bont rheilffordd, ble byddai tagfeydd. Ystyriwyd fod mynediad i'r A470 ac oddi yno yn anodd ac y byddai'r cais yn creu llawer iawn mwy o draffig ychwanegol. Nodwyd sawl gwaith bod cludiant cyhoeddus annigonol yn yr ardal hefyd yn bryder.

2. **Priodoldeb / addasrwydd y dyraniad.** Holodd sawl cyfranogwr os oedd angen colli'r tir amaethyddol gorau ar gyfer y dyraniad. Roedd llawer (ond nid pawb) yn teimlo nad oedd y cae yn addas ar gyfer nifer y tai a gynigir a bod nifer yr unedau'n cynrychioli cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth gyffredinol Llanrwst. Roedd eraill yn teimlo bod angen tai yn yr ardal, ond bod rhoi cymaint o dai ar un safle yn anghymesur ac y dylent gael eu dosbarthu ar draws safleoedd llai. Gofynnodd sawl cyfranogwr am fwy o wybodaeth ar y cymysgedd o dai a chyfiawnhad am faint y safle arfaethedig. Roedd gan lawer bryderon nad oedd digon o gyfleoedd gwaith yn yr ardal, gan holi ble byddai'r preswylwyr newydd yn gweithio. Yn olaf, holodd sawl cyfranogwr a fyddai'r mewnlifiad o breswylwyr newydd yn effeithio'n andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg yn Llanrwst.

3. **Yr effaith ar isadeiledd a gwasanaethau cyfredol.** Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r mewnlifiad o breswylwyr newydd yn cael effaith negyddol ar wasanaethau lleol sydd dan bwysau'n barod. Dywedodd llawer ohonynt fod gwasanaethau presennol yn cynnwys meddygon, deintyddion, ysgolion, gwasanaethau brys, cludiant cyhoeddus, cyfleusterau carthffosiaeth, siopau a chyfleusterau chwaraeon yn cael trafferth bodloni'r galw presennol ac nad oedd Llanrwst yn barod am gynnydd yn y boblogaeth. Soniodd rhai'n benodol eu bod yn gorfod aros am 2-3 wythnos am apwyntiad â'r meddyg a dywedodd eraill y byddai angen ysgol newydd, er bod rhywun arall wedi dweud bod digon o le yn ysgol Llanddoged.


4. **Llifogydd / Draeniau.** Roedd gan nifer o'r cyfranogwyr bryderon am effaith y dyraniad ar lifogydd yn lleol, oedd eisoes ar gynnydd. Dynodwyd sawl enghraifft o lifogydd ar y safle neu gerllaw (yn cynnwys ar yr A470, sy'n cael effaith ar gymudwyr) ac nad oedd draeniau presennol yn cael eu cynnal. Cyfeiriodd eraill at y topograffi a draenio gwael ar y safle ei hun (gweler map 1 isod). Holodd eraill a

oedd cyflenwad dŵr digonol i'r safle ac a allai'r rhwydwaith carthffosiaeth ymdopi â maint y safle.

5. **Tai Fforddiadwy.** Nododd llawer o'r cyfranogwyr fod angen darparu tai fforddiadwy, o safon, i bobl leol yn gyntaf. Cyfeiriodd rhai bod angen dynodi canran y tai fforddiadwy cyn y byddent yn cyflwyno rhagor o sylwadau, ond ymddengys bod consensws y dylai'r canran hwn fod mor uchel â phosib er budd y gymuned leol.

Materion eraill a nodwyd oedd effaith bosib y cynnig ar fioamrywiaeth a cholli coed a gwrychoedd, oedd yn nodwedd gref yn y safle ar hyn o bryd. Soniodd rhai y byddai'r safle'n cael effaith negyddol ar deithio llesol a chodwyd pryderon am effaith y safle adeiladu, yn cynnwys sŵn.

Er bod gwybodaeth leol wedi'i hadlewyrchu ym mhob un o'r pwyntiau a godwyd, gwahoddwyd y cyfranogwyr hefyd i nodi materion ar fapiau ffisegol – darperir cyfuniad o sawl map isod:



**ii). Camau Lliniaru a Gwelliannau**

Er bod llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod y dyraniad yn amhriodol mewn egwyddor, roedd nifer yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau a chyflwyno awgrymiadau yn ymwneud â dyluniad posibl y safle, camau lliniaru yn erbyn effeithiau a blaenoriaethau ar gyfer y gymuned pe bai'r safle'n cael ei ddatblygu. Dylid nodi bod llawer llai o sylwadau yn y trafodaethau hyn o'i gymharu â'r ddwy drafodaeth gyntaf ac roedd pryderon yn dal i gael eu mynegi am y safle hyd yn oed yn y trafodaethau hyn.

Roedd cytundeb eang y dylai'r pryderon a nodwyd yn rhan i) gael eu trin yn llawn wrth ddylunio'r safle a dylid rhoi cyfiawnhad llawn yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd o ran bob mater a godwyd.

Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

1. **Mynediad, Diogelwch ar y Priffyrdd a Chludiant Cyhoeddus.** Dylid ymdrin â phryderon diogelwch o ran sut y byddai'r safle'n cysylltu'n ddiogel â'r A470 - mae'n debyg y byddai angen cylchfan. Ystyriwyd bod gwelliannau i gysylltiadau Teithio Llesol (yn enwedig i gerddwyr) yn hanfodol gan fod y palmentydd yn wael neu gan nad oes rhai o gwbl, drwy'r A470 a Ffordd Llanddoged, er nad oedd yn glir sut y gellid darparu hyn. Dylid ystyried y pryderon am y cyswllt â gweddill Llanrwst er mwyn integreiddio'r safle'n iawn. Ni fyddai'n addas cael mynediad drwy Blas Isaf gan ei fod yn rhy gul, hefyd, mynegwyd pryderon am ddiffyg gwelededd, diffyg mannau pasio a'r ffaith nad oedd palmentydd ar Ffordd Llanddoged. Felly hefyd, pe bai plant yn cael eu hanfon i Ysgol Llanddoged, byddai hyn yn ychwanegu pwysau ar Ffordd Llanddoged, sydd eisoes mewn cyflwr gwael a pheryglus. Soniwyd bod diffyg gwasanaethau bws a thrên yn broblem; dylid gosod safleoedd bws ger y safle a dylid ystyried mynediad diogel i'r orsaf drenau. Mae hyn yn debygol o greu gorddibyniaeth ar gerbydau, a dylid ymdrin â hyn drwy greu digon o fannau parcio, ond ni fyddai'n helpu i integreiddio'r safle â gweddill y dref.

2. **Tai Fforddiadwy / Angen Lleol am Dai.** Roedd consensws y dylai'r tai a ddarperir fodloni anghenion lleol ac awgrymodd sawl un y dylai'r tai fod yn 100% fforddiadwy i bobl leol neu gael eu cyfyngu i bobl leol yn unig (gofynnodd sawl

un am eglurhad ar ganran yr unedau fforddiadwy / fformiwla i benderfynu ar fforddiadwyedd). Fel isafswm, dylai'r tai fod ar gyfer y boblogaeth leol a dylid sefydlu fforddiadwyedd ar enillion lleol. Awgrymwyd y dylid darparu canran uchel o fyngalos, yn ogystal ag eiddo i bobl ifanc yn cynnwys cynlluniau cymorth i brynu. Ni ddylid defnyddio'r safle ar gyfer ail dai a / neu lety gwyliau.

3. **Natur y Datblygiad / Dyluniad y Safle.** Roedd rhai cyfranogwyr eisiau sicrhau bod dyluniad y safle yn addas i Lanrwst, â phensaernïaeth o safon sy'n adlewyrchu'r lleoliad, sy'n gwneud y defnydd gorau o'r dirwedd o'i amgylch ac yn darparu mannau cyhoeddus addas. Fel yr awgrymwyd uchod, dylai'r mathau o unedau flaenoriaethu tai fforddiadwy i'r boblogaeth leol a dylid ystyried eu hanghenion wrth ddylunio'r cartrefi - er enghraifft, darparu byngalos hygyrch i bobl hŷn a phobl anabl. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd y safle'n ddigon mawr ar gyfer nifer y tai a gynigiwyd, ac roedd eraill yn teimlo y dylid rhoi mwy o le fesul uned yn cynnwys gofodau parcio digonol. Roedd sawl un yn dymuno gweld cartrefi o ansawdd sy'n effeithlon o ran ynni â phaneli solar fel isafswm. Dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod modd cyflawni'r tai, o gofio methiannau diweddar cwmnïau adeiladu yn y sir.

4. **Mannau Agored / Darpariaeth arall ar y safle.** Dylid dynodi mannau addas i fynd â chŵn am dro a mannau i anifeiliaid anwes yn ogystal â mannau gwyrdd, parciau, caeau chwarae a llwybrau. Awgrymwyd meysydd chwarae, ond hefyd mynediad da at natur / mannau agored ehangach e.e. awgrymwyd cael corneli bywyd gwyllt / natur, yn ogystal â phlannu coetir. Cyfeiriwyd at ddylunio i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd. Dylai rhandiroedd fod yn agos at anheddau presennol ac ni ddylid eu defnyddio fel rheswm i leihau maint gerddi. Awgrymwyd hefyd y dylid cael cynllun ynni cymunedol (Hydro / Solar / gwynt) er budd pobl leol.

Roedd materion eraill y tu hwnt i'r safle yn cynnwys awgrymiadau y dylid gwella Sgwâr Llanrwst ac y dylid darparu gwersi Cymraeg i bobl newydd i geisio cyfyngu ar yr effaith ar yr iaith yn yr ardal.

Mae Cyngor Tref Llanrwst wedi gweithio gyda'r gymuned yn y flwyddyn flaenorol i adnabod beth oedd y blaenoriaethau cymunedol ehangach fel rhan o'r ymarfer 'Cynllun Bro Kickstarter', a chytunodd y cyfranogwyr y dylai'r blaenoriaethau hyn gael eu hystyried fel rhan o'r broses CDLl hon. Denodd y gweithgaredd 212 o bobl i gymryd rhan, a nodwyd gwelliannau i Lwybr Glanrafon, ailddefnyddio eiddo gwag, cyfleoedd siopa bywiog, cynnal a chadw ffyrdd a chyfleusterau cyhoeddus yn well, mwy o ystod o gyfleusterau adloniant, isadeiledd llifogydd, tai fforddiadwy a gwasanaethau trên a bws gwell / mwy rheolaidd fel blaenoriaethau.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

O’r 36 o drigolion Llanrwst a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn, mae’n amlwg fod pryderon cryf ynghylch egwyddor y dyraniad arfaethedig yn ogystal â’r effaith bosib ar wasanaethau sy’n bodoli, isadeiledd cludiant a llifogydd. Pe bai’r safle’n cael ei ddatblygu, darpariaeth tai fforddiadwy lleol oedd y mater mwyaf cyffredin a godwyd.

Cydnabyddir bod y cyfranogwyr yn cynrychioli 1.15% o gyfanswm poblogaeth Llanrwst, ac felly ni ellir cymryd canlyniadau’r ymarfer yn arwyddocaol yn ystadegol neu fel cynrychiolaeth o safbwyntiau’r rhai na gymerodd ran. Fodd bynnag, o ystyried pa mor aml a chyffredin oedd y materion a godwyd yn annibynnol mewn digwyddiadau, mae’n bosib y byddai materion tebyg yn cael eu hadlewyrchu mewn ymarfer ymgysylltu ehangach.

Mae’r materion a godwyd gan y gymuned yn yr adroddiad hwn (yng nghorff yr adroddiad a’r Atodiadau) yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy i’w hystyried wrth iddynt baratoi’r Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd; fel isafswm, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymell fod yr holl faterion a godwyd yn cael eu trin, eu cyfiawnhau a’u hegluro yn ymgynghoriad y Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd, ac yn ddelfrydol bod ymateb yn cael ei baratoi i’r materion a godwyd a’u hanfon at y rhai a gymerodd ran a’i gyhoeddi ar eu gwefan. O ran yr ymgynghoriad sydd i ddod, awgrymodd Cymorth Cynllunio Cymru y dylid ystyried yr argymhellion yn adran 3 wrth gynllunio a hysbysebu ymarfer ymgynghori’r Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd.